

**COFNODION O GYFARFOD PWYLLGOR AMCANION CYFFREDINOL A CHYNLLUNIO CYNGOR TREF BAE COLWYN A GYNHALIWDYD YN YR YSTAFELL BWYLLGOR, NEUADD Y DREF, FFORDD RHIW, BAE COLWYN, NOS FAWRTH, 18<sup>FED</sup> AWST 2015 AM 6.30 P.M.**

**YN BRESENNOL:** Y Maer, Cynghorydd Dr S. Roy,  
Cynghorydd D. Porter (Cadeirydd)  
Cynghorwyr W Bagnall, Mrs L. Edwards, Mrs L. Griffiths, Mrs  
M. Jones, J. Pearson (Warden Coed), S. Williams, C. Wood

**SWYDDOG:** Mrs C J Earley, Clerc y Dref

**130/15 Croeso ag Ymddiheuriadau am Absenoldeb:**

Croesawodd y Cynghorydd D. Porter ei gyd-aelodau i'r Cyfarfod a hysbyswyd hwy o'i fwriad i ymddiswyddo o'r Cyngor mewn ychydig ddyddiau yn dilyn ei benodiad i swydd yn Lerpwl. Datganodd y Maer a'r Aelodau eu tristwch at y newyddion a diolchwyd i'r Cynghorydd Porter am ei gyfraniad i waith y Cyngor Tref ers 2010, yn bennaf fel Is-Gadeirydd a Chadeirydd y Pwyllgor hwn.

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr N. Bastow ag R. Foreman.

**131/15 Datgan Cysylltiadau:**

Atgoffwyd yr aelodau o'r angen iddynt ddatgan unrhyw gysylltiadau personol a / neu gysylltiadau sy'n rhagfarnu, a natur y fath gysylltiadau. Ni ddatganwyd dim.

**132/15 Cofnodion:**

*Penderfynwyd cymeradwyo cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 28<sup>ain</sup> Gorffennaf 2015 a'u llofnodi i fod yn adroddiad cywir.*

**133/15 Materion yn Codi o Gofnodion Blaenorol:**

**a. Cofnod 111/15(a) – Pryderon am Barcio:**

Fe nodwyd na dderbyniodd y Clerc mwy o achosion o bryder am barcio. Fe anfonwyd dyddiadau cyfarfodydd y Pwyllgor ym Medi a Hydref at Emma Anthony (CBS Conwy). Hysbyswyd yr aelodau gan y Cynghorydd Bagnall bod y broblem barcio dros nos ar y promenâd wedi cael ei ddatrys erbyn hyn.

**b. Cofnod 111/15(c) – Pier Fictoria**

Cyflwynodd y Cynghorydd D. Porter diweddariad byr ar lafar yn dilyn cyfarfod y Grŵp Llywio gyda chynrychiolwyr o GBS Conwy ar 17<sup>eg</sup> Awst. Trafodwyd yr adborth a dderbyniwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri ar y cais am gyllid i ailddatblygu'r Pier. Fe nodwyd bod y cyfarfod wedi bod yn un gyfeillgar a bod CBS Conwy yn barod i roi unrhyw wybodaeth oedd ei angen. Fe gynhelir cyfarfod arall gyda'r Grŵp yn y misoedd i ddod mewn ymdrech i oresgyn rhai o feirniadaethau eu hunain a phryderon am y cais cyntaf.

*Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a'i nodi.*

**c Cofnod 112/15(c) - Arolwg o Barcio ar y Promenâd:**

Cafwyd diweddariad byr ar lafar gan yr aelodau am y gwaith a wnaed gyda'r arolwg. Fe nodwyd bydd y canlyniadau yn cael eu casglu a'u crynhoi ar ôl mis Medi, er mwyn cwblhau rhai yn dilyn cyfnod prysur y gwyliau ysgol.

Mynegwyd pryder am gerbydau yn cael eu parcio ar y palmant ac ar linellau melyn dwbl. Fe nodwyd nad oedd gan staff yr Harbwr Feistr yr hawl i roi dirwyon am barcio na dirwyon am droseddu yn erbyn Gorchmynion Cŵn (mewn manau lle gwaherddir cŵn nac am gŵn yn baeddu). Fe nodwyd bod Kingdom Securities (KS) yn rhoi tocynnau cosb penodedig ar ran CBS Conwy, ond roedd rhai aelodau o'r farn nad oeddynt yn patrolio'r ardal yn ddigon aml. Fe nodwyd ymhellach bod staff KS yn teimlo'n rhwystredig oherwydd y diffyg canfyddedig o orfodi'r dirwyon a roddwyd ganddynt gan GBS Conwy.

*Penderfynwyd ysgrifennu at GBS Conwy yn rhoi manylion am y pryderon hyn a gofyn am fwy o batrolio ar y traeth / promenâd yn ystod misoedd prysur yr haf.*

**134/15 Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy:**

- a. Cyflwynodd y Clerc hysbysiad o gais am reoliad traffig dros dro (RhTDD) yn Rhodfa Min y Don / Beach Road, Hen Golwyn ar 27/8/2015.

*Penderfynwyd derbyn a nodi'r RhTDD.*

**135/15 Gohebiaeth Arall:**

Fe nodwyd bod yr eitemau canlynol o ohebiaeth ar gael gan y Clerc ar gais:

- a Cofnodion Cyfarfod Cymdeithas Trigolion Hen Golwyn (y Dwyrain).

**136/15 Cynllunio:**

- a. Cyflwynodd y Clerc y ceisiadau cynllunio a dderbyniwyd gan GBS Conwy i'w ystyried.

*Penderfynwyd cyflwyno sylwadau ar y ceisiadau hyn fel y gwelir yn Atodlen 'A' sydd gyda hwn.*

- b. Cyflwynodd y Clerc copi o Benderfyniadau Cynllunio a roddwyd gan GBS Conwy am y cyfnod 6/7/15 i 19/7/15.

*Penderfynwyd derbyn a nodi'r Benderfyniadau Cynllunio.*

- c. Cyflwynodd y Clerc adroddiad ysgrifenedig gan y Cynghorydd B. Bagnall, yn dilyn yr ymweliad a safle cynllunio diweddar parthed y cais ar gyfer Parc Gwyliau Nant y Glyn.

*Penderfynwyd derbyn adroddiad y Cynghorydd Bagnall a'i nodi, yn arbennig parthed gweledd ger y fynedfa i'r safle.*

**ch. Ceisiadau am Drwyddedau:**

Fe nodwyd na chofnodwyd ceisiadau am drwyddedau ar gyfer ardal Bae Colwyn yn y tair wythnos flaenorol.

Daeth y Cyfarfod i ben am 6.50 pm

..... Cadeirydd